



Cofnodion Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd brynhawn Iau y 19^{fed} o Dachwedd 2020 2:00 y.p.

Yn Bresennol

Iona Evans	Cadeirydd
Hywel Madog Jones	Is-gadeirydd
Margaret Roberts	Trysorydd
Gareth W Jones	Ysgrifennydd

Eirian Davies, Robert Evans, Dafydd Lewis, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams, Philip Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb ac y enwedig i Dafydd Lewis.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown, John Griffith, Dafydd Horan, Carys Parry ac Elizabeth Roberts.

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR Y 20^{fed} O Awst 2020

Tynnodd Rob Evans sylw nad oedd yn bresennol. Cynigiodd Hywel Madog Jones ac eiliodd Eirian Davies dderbyn cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir ar ôl cwblhau'r cywiriad hwn.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- (i) Cofnod 5: Y Cylchlythyr a'r Naturiaethwr – Amcangyfrif Costau Dylunio
Dywedodd Golygydd y Naturiaethwr y byddai cylchgrawn cyfunedig o 60 tudalen maint 269 x 210 mm yn costio £2,995, o'i gymharu â £2,500 am gynhyrchu'r ddau gyhoeddiad presennol. Ychwanegodd Golygydd y Cylchlythyr na fyddai costau postio yn lleihau. Tynnwyd sylw mai arbed arian oedd y prif reswm am ystyried uno'r cylchgronau ac na welwyd manteision eraill o ran cyflawni gofynion y Gymdeithas. .

Dywedodd yr Is-gadeirydd ei bod yn gymharol hawdd cyhoeddi gweithgareddau ar wefan a thudalen Weplyfr CELI fesul mis ac awgrymodd ystyried a fyddai angen cyhoeddi'r rhaglen yn y Cylchlythyr yn y dyfodol. Tynnwyd sylw bod nifer o aelodau heb fynediad at y rhyngrwyd.

- (ii) Cofnod 5: Rheswm dros wahanu'r ddau gylchgrawn Adroddodd Iwan Roberts nad yw rhifynnau o'r Cylchlythyr a'r Naturiaethwr ym 1995 yn cynnig esboniad dros

wahanu'r ddau gyhoeddiad. Nodwyd bod y nifer o weithgareddau'n cynyddu pryd hynny ac awgrymwyd bod adroddiadau gweddol anffurfiol ynghlŷn â theithiau'n wahanol eu naws i erthyglau'r Naturiaethwr.

Cynigiodd Philip Williams ac eiliodd Rob Evans y dylid cadw at y drefn bresennol. Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad

- (iii) Cofnod 6 Cysylltu â'r Comiswn Elusennau ynghylch y Cyfarfod Blynyddol Diolchodd yr Ysgrifennydd i'r Trysorydd am agor ymgynghoriadau gyda'r Comisiwn Elusennau ac adroddodd i'r Comisiwn dderbyn cais y Gymdeithas i ohirio'r Cyfarfod Blynyddol tan 2021. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd gylchredeg llythyr y Comisiwn (**pwyt gweithredu**).
- (iv) Cofnod 7 i: Defnyddio cyfeiriadau e-bost o eiddo'r Gymdeithas Dywedodd yr Is-gadeirydd iddo gysylltu â dylunydd y wefan ac ei fod yn aros am ymateb. Gofynnwyd i aelodau o'r PG ystyried a ddylid defnyddio enw llawn y Gymdeithas neu dalfyriad e.e. "CymEdwardLlwyd", "CELLwyd" neu "CELL". Nodwyd y gallai enw'r parth (domain name) dibynnu ar drefniadau o ran cynnal cyfarfodydd rhithiol.
- (v) Cofnod 7 :iii: Talu am danysgrifiad Zoom gyda chyfleusterau gwell Adroddodd yr Is-gadeirydd mai Zoom a Google Meet yw'r systemau gorau ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithiol. Dywedodd fod Google yn cynnig "G Suite" am ddim i sefydliadau dielw ac ychwanegodd fod y pecyn hwn yn cynnwys cyfleusterau ychwanegol gan gynnwys cyfeiriad e-bost a chadw ffeiliau yn y cwmwl. Esboniodd nad oedd yn sicr y byddai'n bosibl defnyddio'r enw parth ".cymru". Cytunwyd y byddai'r Is-gadeirydd a Jackie Willmington yn cynnal cyfarfodydd arbrofol drwy "Google Meet" ***(pwyt gweithredu)**.

5. YR YMWELIAD Â'R ARFORDIR JWRASIG YN 2021

Dywedodd yr Is-gadeirydd y byddai ymweld â'r arfordir Jwrasig ym mis Mawrth 2021 yn dibynnu ar y rheolau mewn grym yn Lloegr ac yng Nghymru bryd hynny a'r nifer o aelodau a fydd yn awyddus i fynd. Nodwyd bod y Trefnydd Gwyliau o'r farn nad oedd angen cyrraedd penderfyniad eto. Cadarnhaodd y Trysorydd y gellid gohirio penderfyniad heb gollu arian yn ôl y termau ar wefan y gwesty. Cytunwyd i ofyn i Carys Parry gadw mewn cysylltiad â'r gwesty a rhoi gwybod petai rhaid gweithredu cyn cyfarfod mis Chwefror (**pwyt gweithredu**).

6. YMATEB I GOFNODI LLWYBRAU CYHOEDDUS AR FAPIAU

Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw i'r Cadeirydd siarad ar "Heno" am ymdrech y Ramblers "Don't Lose Your Way". Esboniodd nad yw nifer o lwybrau cyhoeddus ar fapiau a bod rhaid eu cofnodi cyn mis Ionawr 2026 er mwyn atal y perygl o golli mynediad gwarantedig. Cynigiodd Rob Evans ac eiliodd Gwyn Roberts y dylai'r Ysgrifennydd anfon llythyr at y Ramblers yn mynegi cefnogaeth y Gymdeithas i'r ymdrech. Cytunwyd yn unfrydol. (**Pwyt gweithredu**).

7. CYSTADLEUAETH ERTHYGL AR GYFER Y NATURIAETHWR YN YR EISTEDDFOD AMGEN

Cadarnhawyd nad oedd “Erthygl addas i’w chyhoeddi yn y Naturiaethwr” ymhlith Rhestr Testunau Eisteddfod Amgen mis Awst 2020. Cadarnhaodd y Cadeirydd i drefnwyr yr Eisteddfod gyhoeddi’r bwriad i gadw’r ceisiadau a dderbyniwyd cyn 1^{af} Ebrill 2020 a’u hanfon at y beirniaid ym mis Ebrill 2021. Gofynnwyd i’r Ysgrifennydd gysylltu â’r trefnwyr a gofyn eu bwriad ynglŷn â chystadlaethau i ddod (**pwynt gweithredu**).

Dywedodd Jackie Willmington fod y pwyllgor lleol wedi trafod chwilio am arian i recordio darlithoedd Gwyddoniaeth a Thechnoleg os na fydd yn bosibl cynnal Eisteddfod Sir Ceredigion yn 2021.

8. DATBLYGU CYSYLLTIAD RHWNG Y GYMDEITHAS Â DDYSGWYR

Dywedodd Rob Evans iddo dderbyn ymateb cadarnhaol i’w gylchlythyr i ddysgwyr, “Y Wennol”. Cynigiodd ymweld â grwpiau o ddysgwyr, pan fydd rheolau Covid 19 yn caniatáu, ac annog arnynt fynychu teithiau yn eu hardaloedd. Croesawyd y cynnig gan y Cadeirydd. Cytunwyd bod angen trefnu i aelod roi croeso i ddysgwyr a gofalu amdanynt yn ystod y daith.

9. HYRWYDDO LLYFR ARFAETHEDIG ANNE GWYNNE “FAN HYN FAN CO”

Atgoffwyd y PG gan y Cadeirydd i’r Gymdeithas addo hyrwyddo llyfr Anne Gwynne yn cofnodi teithiau’r De a’r Canolbarth. Dywedodd bod y llyfr bron yn barod i’w gyhoeddi am £7.99 gan Wasg Gomer dan y teitl “Fan Hyn Fan Co”. Gofynnwyd i Rob Evans gysylltu â phapurau bro mewn ardaloedd perthnasol (**pwynt gweithredu**). Cytunwyd i hyrwyddo’r llyfr yn y Cylchlythyr ac ar y wefan, Weplyfr a Thrydar.

Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw bod Duncan Brown newydd gyhoeddi “Tro ar Fyd”, llyfr o ysgrifau ynglŷn â newid hinsawdd a’r amgylchedd.

Adroddodd yr Is gadeirydd hefyd fod Gwasg Prifysgol Cymru ar fin gyhoeddi cyfrol Saesneg, academiaidd ei naws, am Edward Llwyd yn eu cyfres ynglŷn â gwyddonwyr Cymru. Atgoffwyd y PG bod y Gymdeithas wedi addo hyrwyddo’r llyfr. Rhoddwyd gwybod ei bod yn bosibl y cyhoeddir llyfr ysgafnach am Edward Llwyd yn y dyfodol ac awgrymwyd y gallai’r Gymdeithas ystyried cyfrannu’n ariannol ar yr amod ei fod yn y Gymraeg neu’n ddwyieithog.

10. ADRODDIADAU’R SWYDDOGION A’R IS-BWYLLGORAU

i) Is-Bwyllgor Llên Natur Darllenodd y Cadeirydd Adroddiad Duncan Brown.-

- Cadarnhawyd bod Bwletin Misol Llên Natur wedi ymddangos bob mis dros gyfnod y Cofid.
- Cyhoeddwyd mai Dominig Kervegant sydd bellach yn golygu a dylunio’r Bwletin gyda DB yn darparu mwyafrif y testun.
- Adroddwyd prynu meddalwedd gyhoeddi “Affinity Publisher” ar gyfer gwaith DK a gwnaethpwyd cais am £50 ar gyfer ail gopi i alluogi DB i weithio wrth hunan-ynysu. Cytunodd y PG.

- Adroddwyd bod yr ymateb i lansio Clwb y Llygaid Bach yn araf ond bod DB yn datblygu adnoddau pellach, gan gynnwys posteri rhithiol, sydd i'w gweld ar wefan Llên Natur.
- Diolchwyd i Iwan am rannu ei frwdfrydedd a'i arbenigedd am y ffwng ar dudalen Weplyfr Cymuned Llên Natur -
- Cofnodwyd bod DK wedi datblygu adran newydd i gyflwyno gwybodaeth ar ffurf mapiau.
- Adroddwyd: na chynhaliwyd cyfarfodydd y Pwyllgor Enwau a Thermau ond cafwyd dau gyfle i gyflwyno ei waith yng nghynhadledd rithiol "Cofnod" a gynhwysodd sesiwn yn Gymraeg am y tro cyntaf mewn ugain mlynedd.
- Tynnwyd sylw bod DB wedi llwyddo i gynnal noson " 'slumod a gwyfynod" er bod rhaid canslo helpa ffwng oherwydd anawsterau'r pandemig.

ii) Y Trysorydd

Dosbarthwyd y fantolen a ddangosodd incwm o £1,497.70 rhwng 17.08.2020 a 16.11.2020. Gwariant yn ystod y cyfnod oedd £3,875.12. Bu £45,434.84 mewn llaw gan gynnwys £17,207.72 yn nau fond Banc Hodge. Rhestrwyd gwerth tua £9,652 o eitemau y disgwyliid eu talu yn y dyfodol agos.

Trafodwyd ail-fuddsoddi £10,000 ym mond Banc Hodge pan fydd yn aeddfedu ym mis Rhagfyr a chodwyd cwestiwn ynglŷn â moesoldeb y buddsoddiad. Galwyd i gof i archwilio yn y gorffennol ddangos nad yw'n hawdd darganfod buddsoddiadau moesol addas. Cytunwyd i ailfuddsoddi ym Mank Hodge ond awgrymwyd gofyn a yw'r bond yn cynnwys buddsoddiadau annymunol (**pwyt gweithredu**).

Dosbarthwyd hefyd fersiwn derfynol o gyfrifon 2019-2020 wedi'u llofnodi gan yr archwilwyr.

Gofynnodd y Trysorydd i'r PG gymeradwyo cytundeb tair blynedd i dalu £700 +TAW y flwyddyn am feddalwedd BACS. Awgrymodd y Trysorydd fod rhaid defnyddio'r system a mynegodd yr Is-gadeirydd a'r Ysgrifennydd Aelodaeth eu barn nad oedd modd osgoi talu amdani. Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Trysorydd am ei gwaith.

iii) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth

Dywedodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth fod y nifer o danysgrifiadau wedi lleihau i 531. Adroddodd fod tua 50 aelod wedi canslo'u haelodaeth a thua 50 yn rhagor wedi methu ag anfon tâl aelodaeth drwy siec. Awgrymwyd mai diffyg gweithgareddau oherwydd y pandemig a gohirio'r Eisteddfod Genedlaethol, lle mae nifer o aelodau'n tanysgrifio, oedd y prif resymau. Cytunodd Rob i roi gwybod i'r Lolfa na fyddai angen printio cymaint o gopiâu o rifynnau nesaf y Cylchlythyr a'r Naturiaethwr (**pwyt gweithredu**).

Tynnodd Alan sylw y byddai'n trosglwyddo ei ddyletswyddau i Rob cyn y cyfarfod nesaf ond na fyddai'n gadael y PG. Mynegodd pawb eu dymuniadau gorau iddo.

iv) Trefnyddion Gweithgareddau

Dywedodd Iwan fod y drefn o gyhoeddi gweithgareddau fesul mis yn gweithio'n dda.

Diolchodd Y Cadeirydd i'r Trefnyddion am fod mor hyblyg yn ystod y pandemig.

Adroddodd yr Is-gadeirydd bod John Griffith wedi gadael yr ysbyty ond nad oedd yn debyg o allu ailgydio yn trefnu gweithgareddau yng Ngwynedd a Môn am gyfnod estynedig. Dywedodd Hywel Madog ei fod yn fodlon parhau i weithredu drosto tra byddai galw am drefnu teithiau fesul mis yn hytrach na chyhoeddi rhaglen chwe mis. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith.

Adroddodd Eirian ei fod wedi paratoi rhaglen ddrafft hyd at y gwanwyn.

v) Golygydd y Cylchlythyr

Tynnodd y Golygydd sylw mai 1^{af} Ionawr yw'r dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf ac apeliodd am gyfraniadau o unrhyw fath i wneud iawn am ddiffyg disgrifiadau o deithiau.

Gofynnodd ynglŷn â chyhoeddi ôl-rifynnau o'r Cylchlythyr ar y wefan. Dywedodd yr Is-gadeirydd y dylid anfon ffeiliau pdf ato. Awgrymwyd gohirio am chwe mis cyn dangos y rhifyn diweddaraf ar y wefan.

vi) Golygydd y Naturiaethwr

Dywedodd y Golygydd y byddai'n gofyn am gopiau pdf o'r Naturiaethwr er mwyn diweddarau'r casgliad ar y wefan.

Adroddwyd nad oedd erthyglau i'r rhifyn nesaf wrth lawr eto ond yr oedd y Golygydd yn hyderus y byddent yn cyrraedd mewn pryd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau Olygydd am eu gwaith.

11. GOHEBIAETH Dim

12. UNRHYW FATER ARALL Dim

13. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y FLWYDDYN NESAF

18^{ed} Chwefror 2021

20^{fed} Mai 2021

19^{eg} Awst 2021

18^{fed} Tachwedd 2021